

Mr Kevin Shields
Mental Health Care (New Hall) Limited
Alexander House
Highfield Park
Llandyrnog
Denbighshire
LL16 4LU

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

21 Tachwedd 2014

Annwyl Mr Shields

Ynghylch: Ymweliad â New Hall ar 15 a 16 Hydref 2014

Fel y gwyddoch, ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag ymweliad dirybudd i Ysbyty annibynnol New Hall ar 15 a 16 Hydref 2014. Tynnodd yr ymweliad sylw at feysydd nodedig gan gynnwys:

- Cydweithio'n effeithiol fel tîm, yn enwedig y Tîm Amlddisgyblaethol (TA)
- Y berthynas dda a welwyd rhwng cleifion a staff.
- Tystiolaeth o ystyried barn y cleifion ynglŷn â'u gofal a thriniaeth.
- Mae adnewyddu ac ailwampio parhaus wardiau Adferiad a Chlwyd wedi gwella'r amgylchedd gofal yn sylweddol. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith wedi ei lwyr gwblhau, ac o ystyried y lefel o aflonyddwch ar y grŵp cleifion, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i orffen y gwaith ar y wardiau.
- Roedd y rhaglenni gweithgareddau/therapiau wedi gwneud gwir ymdrech i ymgysylltu â chleifion mewn ystod eang o weithgareddau ysgogol a oedd yn apelio at y grŵp cleifion ac oedd yn bodloni eu hanghenion unigol.
- Roedd yr ystod eang o wybodaeth o gwmpas y wardiau mewn fformatau hawdd eu darllen gan gynnwys: Y weithdrefn gwyno, hawliau cleifion a phecynnau anwytho'r ward.

- Mae morâl y staff wedi parhau i wella ers ymweliad diwethaf AGIC ym mis Mawrth 2014
- Sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gweithiwr cymdeithasol yn cefnogi cleifion wrth iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.
- Y llwybr adsefydlu cadarnhaol ar gyfer cleifion.
- Y lefel uchel o niferoedd parhaus sy'n mynychu hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniad.

Gwnaeth ein hymweliad hefyd dynnu sylw at nifer o broblemau. Gwnaethom ddarparu trosolwg llafar o'n pryderon i'ch rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 16 Medi 2014. Mae crynodeb o'r rhain, sy'n cynnwys achosion o beidio â chydymffurfio, wedi ei nodi isod:

Testun Pryder	Rheoliad
1. Mae'n rhaid i bob derbyniad i'r ysbyty fod yn briodol. Nid oedd gan Claf A, ar Ward Glaslyn, ddiagnosis iechyd meddwl ac roedd diagnosis anabledd dysgu wedi ei gofnodi. Mae'n rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod pob derbyniad yn briodol ac yn bodloni amodau cofrestru'r ysbyty.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)
2. Mae angen adolygiad o addasrwydd dau dderbyniad i Ward Glaslyn o fewn cyfnod o 6 diwrnod. Dylai fod digon o amser rhwng derbyniadau er mwyn i gleifion gael y cyfle i ymgartrefu ac i staff gwblhau'r ddogfennaeth gofal cleifion helaeth.	Rheoliad 9 (1) (a); Rheoliad 15 (1) (a) (b) & (c) a Rheoliad 19 (1) (b)
3. Archwiliwyd pedair (4) set o gofnodion Tîm Amlddisgyblaethol (TA) a gwnaed yr arsylwadau canlynol: - Claf A, Ward Glaslyn: - Nid oedd cynllun rheoli risg wedi ei lunio. - Nid oedd asesiad risg ¹HoNos wedi ei gwblhau yn ystod y cyfarfod TA ar 07/10/2014 - Nid oedd cynllun rheoli risg ar waith ar gyfer y claf hwn yn sgil honiad o geisio	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)

¹Mae HoNos (Graddfeydd Deilliannau Iechyd y Genedl) yn set o 12 graddfa, pob un yn mesur math o broblem sy'n cael ei chynrychioli gan gleifion mewn lleoliadau iechyd meddwl. Mae taflen sgorio wedi'i chwblhau'n rhoi proffil o 12 graddfa o ddifrifoldeb Cofnod rhifol ydyw o asesiad clinigol ond nid yw'n disodli cofnodion clinigol neu unrhyw gofnodion eraill. Y bwriad yw y bydd yn rhan gyfannol o set minimwm o ddata ac elfen sylfaenol o Ddull Rhaglen Ofal (DRhO) Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar <http://www.rcpsych.ac.uk/traininpsychiatry/eventsandcourses/courses/honos/generalinformation/faq.aspx#whatis>

cyffwrdd yn amhriodol gan gyd-glaf. iv. Roedd y ffurflen wedi ei chwblhau o dan Adran 132² o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn ddyddiedig y dydd cyn derbyniad, a'r amser oedd 2:00pm, er bod y claf wedi cael ei dderbyn am 3:00pm Yn ogystal nad oedd cofnod o ddarllen hawliau o fewn y cofnodion TA b. Claf B, Ward Glaslyn: i. Nid oedd cynllun rheoli risg wedi ei lunio. ii. Nid oedd asesiad HoNos ar gael. iii. Roedd anghysondeb o ran darllen hawliau o dan Adran 132 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 o ran dyddiadau. Yn ôl y ffurflen Adran 132 07/10/2014 oedd y dyddiad, ond yn ôl y cofnodion TA, 08/10/2014 ydoedd. iv. Nid oed asesiad galluedd ar gael. c. Claf C, Ward Glaslyn: i. Nid oedd cynllun gwella ar gael, fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei fod wedi'i gwblhau ond ei fod ar gyfrifiadur y rheolwr ii. Nid oedd y cynllun rheoli risg wedi ei gwblhau, hynny yw, nid oedd y cynllun ar gael. iii. Nid oedd cynllun gofal rhyddhau ar waith. 4. Nid oedd system larwm galw am nyrs ar wardiau Adferiad a Chlwyd.	Rheoliad 26 (2) (a)
---	----------------------------

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl - Gweinyddu'r Ddeddf

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol 4 o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal ar 3 o'r wardiau yn ysbyty Cefn Carnau adeg ein hymweliad. Nodwyd yr arferion nodedig canlynol:

- Roedd y ffeiliau a archwiliwyd yn cynnwys tystiolaeth dda o graffu gweinyddol.

Nodwyd y materion canlynol ac mae angen eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu:

²Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 - A132 ynglŷn â'r ddyletswydd sydd ar reolwyr yr ysbyty i roi gwybodaeth i gleifion sydd wedi cael eu dal. Mae'n rhaid bod hawliau person yn cael eu darllen iddo o dan A132 o'r Ddeddf, a staff yn cofnodi a yw'r claf wedi deall ei hawliau neu beidio.

5. Nid oedd asesiad y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl³ ar y derbyniad cyntaf ar gael bob amser ac mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn
6. Nid oedd cynlluniau rhyddhau bob amser ar gael yn ffeil y gweinyddwr Ddeddf Iechyd Meddwl

Rhaid i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **12ain Rhagfyr**²⁰¹⁴ gan nodi'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu osod graddfa amser a manylion am bwy fydd yn gyfrifol am weithredu. Wedi i AGIC gytuno bod y cynllun yn briodol bydd yn rhaid ichi ddarparu diweddariadau misol am y cynnydd yr ydych yn ei wneud.

Wedi ichi dderbyn y llythyr hwn mae'n ofynnol i'r Darparwr Cofrestredig wneud sylw ar gywirdeb ffeithiol y materion a grybwyllwyd ac wedi inni dderbyn eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheolaeth hwn ynghyd â'ch cynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn cynnal ymweliad arall er mwyn sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael â'r materion uchod yn ddigonol, a byddwn yn cynnal ymweliadau yn amlach os oes gennym bryderon ynglŷn â diffyg gweithredu prydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddi-oed i drafod cynnwys y llythyr hwn.

A.

Yn gywir



Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

³ Gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy – Person proffesiynol sydd â hyfforddiant mewn defnyddio'r Ddeddf, wedi'i gymeradwyo gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol o weithredu nifer o swyddogaethau o dan y Ddeddf.